



The Open University
Y Brifysgol Agored

Wales Cymru

Medi 2025

Datgloi potensial Cymru

**Economi ffyniannus, cymunedau
llwyddiannus, a dyfodol diogel**

Ein blaenoriaethau i
Lywodraeth nesaf Cymru



Y Brifysgol Agored yng Nghymru



Mae gennym **dros 16,000 o fyfyrwyr** ar draws Cymru gyfan. Mae gennym fyfyrwyr **ymhob un etholaeth y Senedd**.

Mae **bron i hanner** (48%) o'n myfyrwyr yn byw yn rhai o **ardaloedd mwyaf difreintiedig** Cymru – a gwelwyd twf o 168% yn yr rhain ers 2017/18.



Mae bron i **ddau draean** (64%) o'n myfyrwyr yn **gweithio'n** llawn- neu'n rhan-amser wrth ochr eu hastudiaethau a'u cyfrifoldebau eraill.

Mae **15%** o'n myfyrwyr yn adrodd eu bod yn **ofalwyr**, **29%** fod ganddynt **anabledd**, ac **16%** fod ganddynt **gyflwr iechyd meddwl**.



Oherwydd ein model mynediad agored, mae **42%** o'n myfyrwyr yn ymuno â ni **heb gymwysterau mynediad traddodiadol**.

Mae mwy na **dau draean** (68%) o'n myfyrwyr yn **fenywod**. **Oed cyfartalog** ein myfyrwyr yw **30** – iau nag y mae llawer yn disgwyl.



Ein blaenoriaethau

Cynnal cymorth cynhaliaeth teg i fyfyrwyr rhan-amser

Cadw cymorth cynhaliaeth yn deg ac yn gynaliadwy fel bod addysg uwch rhan-amser yn parhau i fod ar gael i bawb, waeth beth fo'u cefndir neu'u hamgylchiadau.

Gwella ariannu ar gyfer addysg uwch rhan-amser

Rhoi darpariaeth ran-amser ar sail gyfartal â llawn amser i ehangu mynediad, tyfu'r ddarpariaeth, a hybu economi Cymru.

Cymryd ymagwedd strategol at ariannu grantiau

Darparu ariannu bloc cynaliadwy am nifer o flynyddoedd drwy Medr i alluogi cynllunio tymor hir a chydweithio ar draws y sector.

Codi'r terfyn benthyciad ffi rhan-amser

Codi'r terfyn benthyciad ffi yn unol â chynnydd prisiau er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth heb ychwanegu pwysau ariannol ychwanegol ar fyfyrwyr.

Manteisio ar gyfleoedd trwy raglenni sgiliau cenedlaethol

Ymgorffori addysg uwch hyblyg fel rhan o raglenni sgiliau Cymru i ehangu cyfranogiad a chryfhau sylfaen sgiliau cenedlaethol.

Ehangu mynediad at ddarpariaeth sgiliau lefel uchel ac arloesol

Ariannu prentisiaethau gradd, cyrsiau byr, a chyrsiau modiwlaid i ddiwallu anghenion economaidd y dyfodol gyda darpariaeth hyblyg ac ymatebol.

Cynyddu mynediad at lwybrau hyblyg i yrfaeodd gwasanaeth cyhoeddus

Buddsoddi mewn llwybrau hyblyg i addysgu, nyrsio, a gwaith a gofal cymdeithasol i fynd i'r afael â diffygion gweithlu a chynyddu cyfleoedd mynediad.

Cydnabod gwerth cymdeithasol ac economaidd dysgu gydol oes

Cefnogi dysgu parhaus ar bob cam o'r bywyd i godi hyder, gwella lles, a chryfhau cymunedau a'r economi.

Rhagair

Mae Cymru yn wynebu cyfnod hollbwysig i addysg uwch. Mae cyllid ar gyfer astudio rhan-amser a hyblyg – asgwrn cefn cyfleoedd i filoedd o ddysgwyr – wedi methu â chadw i fyny â chwyddiant ers dros ddegawd.

O ganlyniad, er gwaethaf y galw cynyddol, mae'r ddarpariaeth ar draws y sector wedi gostwng. Mae llawer o brifysgolion wedi lleihau neu dynnu cyrsiau rhan-amser yn ôl yn gyfan gwbl, gan adael pobl â llai o ddewisiadau a llai o ffyrdd i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw, eu cymunedau, a'r economi.

Ar yr un pryd, mae'r byd gwaith yn newid yn gyflymach nag erioed. Mae swyddi newydd, technolegau newydd, a diwydiannau sy'n esblygu yn galw am sgiliau newydd a ffyrdd newydd o ddysgu. Eto i gyd, mae ein system bresennol yn parhau i ganolbwyntio ar astudio traddodiadol, llawn-amser.

Mae'r canlyniadau'n real: mae cymunedau sydd eisoes dan anfantais mewn perygl o gael eu gadael ymhellach ar ôl, ac mae Cymru mewn perygl o golli allan ar y manteision economaidd a chymdeithasol y gall poblogaeth fedrus ac addasadwy eu dwyn.

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru wedi tyfu yn erbyn y cefndir hwn, o tua 7,000 o fyfyrwyr ddegawd yn ôl i dros 16,000 heddiw. Ymunodd llawer â ni o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru a heb gymwysterau blaenorol.

Mae hyn yn dangos yr awydd am ddysgu hyblyg a'i botensial trawsnewidiol. Ond nid yw twf yn unig yn ddigon; heb gyllid cynaliadwy a chefnogaeth strategol, bydd y math hwn o ddarpariaeth mewn perygl cynyddol.

Mae'r manifest o hwn yn nodi set glir o flaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru. Rydym yn gofyn am gefnogaeth gynhaliadwy deg i fyfyrwyr rhan-amser, cyllid gwell a chynaliadwy, ac ymrwymiad i ymgorffori addysg uwch hyblyg yn ein rhaglenni sgiliau cenedlaethol.

Nid dewisiadau polisi yn unig yw'r camau gweithredu hyn – maent yn fuddsoddiad ym mhobl, cymunedau ac economi Cymru. Drwy weithredu'n bendant, gall Llywodraeth nesaf Cymru ddiogelu cyfleoedd, harneisio talent, a sicrhau bod addysg uwch yn gweithio i bawb yng Nghymru.



Ben Lewis

Cyfarwyddwr, Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Cyllid cynaliadwy ar gyfer addysg uwch hyblyg

Yn 2014/15, roedd cyllid blynyddol ar gyfer addysg uwch rhan-amser yn £30.4 miliwn. Pe bai hyn wedi cynyddu yn unol â chwyddiant, byddai wedi cyrraedd £40.8 miliwn erbyn 2024/25.

Ond mewn gwirionedd, roedd yn fwy na £6 miliwn (neu 17%) yn brin, sef £34.6 miliwn. Mae cyllid fesul myfyriwr hefyd wedi gostwng mewn termau real yn ystod yr un cyfnod.

Yn y cyfamser, mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru wedi ymateb i flaenoriaeth Llywodraeth Cymru o ehangu mynediad at astudio hyblyg, gan gynyddu nifer ei myfyrwyr o tua 7,000 yn 2014/15 i tua 16,000 heddiw.

Mae llawer o'r myfyrwyr hyn yn dod o rai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru ac wedi ymuno â ni heb gymwysterau blaenorol.

Yn ystod yr un cyfnod, mae nifer y myfyrwyr rhan-amser ym mhob sefydliad ledled Cymru wedi lleihau 620.

Yn 2016, argymhellodd Adolygiad Diamond gyllid blynyddol o £61 miliwn ar gyfer darpariaeth ran-amser – dylai hynny fod yn £82.5 miliwn yn 2025. Mae cyllid yn parhau i fod yn ystyfnig a sylweddol is na'r lefel hon.

Mae'r system gyllido addysg uwch sydd ohoni yn gwneud darpariaeth rhan-amser yn anfforddiadwy i'w chyflawni. Dyna pam mae llawer o ddarparwyr eraill naill ai wedi tynnu'n ôl yn llwyr neu wedi lleihau eu cynnig rhan-amser yn sylweddol. Nid yw'n gwneud synnwyr ariannol o gwbl.

Hyd yn oed i'r Brifysgol Agored, lle darpariaeth rhan-amser yw ein bara menyn, nid yw'r sefyllfa hon yn gynaliadwy.

Os byddwn yn parhau ar y trywydd hwn, bydd darpariaeth rhan-amser ledled Cymru yn parhau i grebachu, a bydd llai o bobl yn gallu cael mynediad at gyfle trawsnewidiol addysg uwch hyblyg.

Rydym yn helpu pobl ymhob cymuned yng Nghymru i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth newydd, i drawsffurfio eu bywydau, ac i gryfhau eu cymunedau trwy rym dysgu hyblyg

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru:

Cynnal cymorth cynhaliaeth teg i fyfyrwyr rhan-amser

Roedd cyflwyno cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr rhan-amser yn dilyn Adolygiad Diamond yn drawsnewidiol. Fe helpodd i baratoï'r ffordd i filoedd mwy o fyfyrwyr ystyried mynd i addysg uwch na fyddent wedi gallu gwneud hynny fel arall.

Rhaid cynnal cymorth cynhaliaeth teg i fyfyrwyr ar raglenni rhan-amser a hyblyg mewn termau real. Bydd hyn yn sicrhau bod addysg uwch rhan-amser yn parhau i fod ar agor i gynifer o bobl â phosibl, waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.

Gwella cyllid ar gyfer addysg uwch ran-amser

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ymdrin â darpariaeth ran-amser a hyblyg fel cyfrannwr allweddol at gymunedau cydlynol a thwf economaidd. Felly, dylai gyflwyno strategaeth sy'n galluogi mwy o bobl o astudio gydol eu bywydau. Dylid rhoi darpariaeth ran-amser ar sail deg â darpariaeth llawn-amser, gan helpu i dyfu darpariaeth ledled y wlad a galluogi mwy o bobl i wella eu rhagolygon cyflogaeth a newid eu bywydau.

Mabwysiadu dull strategol o ariannu grantiau

Dylai cyllid fod yn gynaliadwy ac yn gyson. Dylai Llywodraeth Cymru alluogi Medr i gyflawni ei dyletswyddau statudol o hyrwyddo dysgu gydol oes a chyfle cyfartal ac annog cyfranogiad mewn addysg drydyddol trwy ddarparu grant bloc digonol. Yna dylid gosod cyllid grant a ddarperir gan Medr i ddarparwyr dros sawl blwyddyn i'w galluogi i gynllunio ymlaen llaw a gweithio ar y cyd ar ddull hirdymor, strategol o ddarparu addysg i fyfyrwyr.

Cyflawni cynnydd i'r cap benthyciadau ffioedd rhan-amser

Dylid ariannu dysgu rhan-amser a hyblyg mewn ffordd sy'n ystyried chwyddiant ac yn galluogi darparwyr a Llywodraeth Cymru i gynllunio ar sail hirdymor, a chael y budd mwyaf i unigolion a'r genedl o'r math hwn o ddysgu.

Gwnaed rhywfaint o gynnydd, ond mae incwm ffioedd o ddarpariaeth rhan-amser yn sylweddol is na lefelau llawn-amser ac mae'n parhau i ostwng mewn termau real. Rydym am osgoi codi ffioedd sy'n uwch na'r hyn y gall myfyrwyr ei fenthycg oherwydd ein bod yn cydnabod yr effaith y byddai hyn yn ei chael ar ein myfyrwyr ac ar fynediad at ein darpariaeth o ansawdd uchel yn ehangach.

Dylid codi'r cap benthyciadau ffioedd rhan-amser yn sylweddol i ganiatáu ar gyfer cynnydd yn y dyfodol sy'n sicrhau ein bod yn derbyn digon o gyllid i ddarparu ein dysgu a'n haddysgu heb roi baich ychwanegol ar fyfyrwyr.

Stori Chloe

Pan gofrestrodd Chloe o Gwmbrân i astudio gyda'r Brifysgol Agored yng Nghymru, doedd ganddi ddim syniad faint y byddai'n newid ei bywyd. Llwyddodd i astudio trwy feichiogrwydd, salwch, a'r pandemig - a daeth allan ar yr ochr arall gyda gradd, gyrfa newydd, a theimlad o falchder yn yr hyn a gyflawnodd.

"Roeddwn i wedi rhoi cynnig ar brifysgol draddodiadol o'r blaen," meddai Chloe, "ond doedd e ddim yn gweithio i mi. Roeddwn yn ceisio astudio'n llawn amser, yn gorfod gweithio nosweithiau i gefnogi fy hun i fyw ar fy mhen fy hun, ac yn delio â meigrin cronig. Roedd yn ormod ac fe wnes i adael ar ôl fy ail flwyddyn."

Ar ôl gadael y brifysgol, cafodd Chloe ei hun mewn swydd lle cafodd flas ar farchnata, ac roedd hi wrth ei bodd. Ond i symud ymlaen, roedd angen gradd arni. Dyna pryd y darganfu'r Brifysgol Agored, sy'n cynnig dysgu hyblyg o bell wedi'i gynllunio i gyd-fynd â bywydau pobl.

"Fe wnes i gais ym mis Mawrth 2019, a darganfod fy mod i'n feichiog y mis nesaf," meddai. Yr hyn a ddilynodd oedd ychydig flynyddoedd heriol: cymhlethdodau beichiogrwydd, cyfnodau clo, a magu plentyn awtistig. Ond dyfalbarhaodd Chloe.

Gwnaeth dull hyblyg y Brifysgol Agored yr holl wahaniaeth. Gallai astudio o gartref, ar ei chyflymder ei hun, a dal i fod yno i'w mab. "Fe weithiodd o gwmpas fy mywyd i," meddai. "Ac roedd y tiwtoriaid yn wych, bob amser yno pan oedd angen help arnaf."

Helpodd cymorth ariannol gan Gyllid Myfyrwyr Cymru hefyd. Derbyniodd Chloe fenthyciad ffioedd dysgu rhan-amser a chyllid cynhaliaeth, a olygai y gallai fforddio gofal plant a gliniadur; dau beth a wnaeth astudio'n bosibl.

Yn ystod ei blwyddyn olaf, cafodd Chloe interniaeth drwy'r Brifysgol Agored, a arweiniodd at swydd farchnata llawn-amser. O fewn y cwmni hwnnw, mae hi wedi cael dau ddyrchafiad, wedi teithio i Ewrop i weithio, ac wedi dechrau ei busnes ffotograffiaeth ei hun ar yr ochr.

Ar ôl graddio gyda'i mab wrth ei hochr ar y llwyfan, aeth Chloe'n ôl at y swydd gyntaf a'i chyflwynodd i fyd marchanta. "Mae'n teimlo fel cau'r cylch o ddarganfod dyhead gyrfa, symud i ffwrdd i ddatblygu'n broffesiynol ac yna dod 'nôl i roi fy sgiliau ar waith."

"Helpodd astudio gyda'r Brifysgol Agored fi i ddarganfod yr hyn roeddwn wir ei eisiau i fy hun a fy ngyrfa," meddai. "A chefais dreulio amser gyda fy mab a'i wyllo'n tyfu i fyny wrth astudio. Ni allwn fod wedi gwneud hynny mewn prifysgol draddodiadol."

Mae stori Chloe yn dangos sut y gall dysgu hyblyg agor drysau, nid yn unig i unigolion, ond i deuluoedd a chymunedau hefyd.

"Astudiais yn ystod un o gyfnodau anoddaf fy mywyd," meddai. "Ond des i allan yn gryfach, gyda gradd, swydd rwy'n ei mwynhau, a dyfodol rwy'n gyffrous amdano."



**Chloe Jackson-Nott, BA (Anrh)
Rheoli Busnes (Marchnata)**

Defnyddio addysg uwch hyblyg fel arf economaidd

Yng Nghymru ac ar draws y byd, mae'r economi'n newid ar gyflymder mellt. Mae'r swyddi sydd ar gael, y ffordd rydym yn gweithio, a'r sgiliau sydd eu hangen arnom yn newid hefyd, ond nid yw ein seilwaith sgiliau yn cadw i fyny.

Mae hyn yn peryglu gadael miloedd o bobl ledled Cymru heb y gallu i gael y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i ffynnu yn yr economi newydd.

Mae ymdrech sylweddol wedi'i gwneud i ddarparu sgiliau lefel is, er bod angen i hyd yn oed y gwaith hwn i gyflymu. Ar ben arall y sbectrwm, mae'r system gyllid myfyrwyr ddiwygiedig yn cefnogi pobl i fynd i mewn i ddarpariaeth addysg uwch draddodiadol. Ond beth sydd ar gael yn y canol?

Yn yr un modd ag y mae'r economi'n newid, mae'r ffordd y mae pobl eisiau dysgu yn newid hefyd. Bydd y cwrs gradd traddodiadol bob amser yn boblogaidd, ond mae cyfran gynyddol o bobl sydd eisiau rhywbeth gwahanol.

Mae mwy a mwy o bobl eisiau dysgu mewn darnau, mynd a chymhwyso eu gwybodaeth a dod yn ôl i ddysgu yn ddiweddarach, a chyfuno astudio ag ymarfer.

Ond ar hyn o bryd, dim ond cymorth cyfyngedig iawn sydd ar gael i'r rhai sy'n ceisio diweddarau eu gwybodaeth, ennill sgiliau newydd, a dysgu mewn ffordd wahanol.

Mae ein system yn gwthio pobl i ddarpariaeth draddodiadol nad yw bellach yn diwallu ein holl anghenion economaidd ac, unwaith eto, mae mewn perygl o waethygu'r tlodi sy'n plagio cymaint o gymunedau.

Trwy ein darpariaeth hyblyg ac arloesol, rydym yn helpu i gryfhau economïau lleol, rhanbarthol, a chenedlaethol, ac yn helpu pobl i ennill sgiliau lefel uchel a gyrfaodd boddhaus newydd

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru:

Cynyddu'r cyfleoedd i bobl gael mynediad at astudio hyblyg drwy raglenni a mentrau sgiliau cenedlaethol

Dylid cynnwys addysg uwch hyblyg mewn rhaglenni fel Cyfrifon Dysgu Personol, y Rhaglen Sgiliau Hyblyg, a Chronfa Ddysgu Undebau Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r mathau hyn o raglenni wedi'u cyfyngu i lefelau is a/neu i ddarpariaeth a gyflwynir mewn colegau. Credwn fod hyn yn colli cyfle mawr i gynyddu sylfaen sgiliau Cymru a gwella rhagolygon economaidd pobl ar draws y wlad.

Dylai'r rhaglenni hyn, ac unrhyw rai eraill a gyflwynir, gynnwys astudiaeth uwch hyblyg yn ddiofyn, a dylent annog cydweithio – nid cystadleuaeth – rhwng darparwyr ar draws y sector addysg drydyddol.

Ehangu mynediad at ddarpariaeth sgiliau lefel uwch ac arloesol

Mae cynnig prentisiaethau gradd Cymru yn parhau i fod yn gyfyngedig ac mae gweinyddiaeth y rhaglen yn parhau i achosi heriau i ddarparwyr. Er mwyn diwallu anghenion economi'r dyfodol, dylid cefnogi darparwyr yn well i ddarparu prentisiaethau gradd mewn ystod ehangach o feysydd a chyda chyllid cynaliadwy.

Mae yna hefyd ystod o gyfleoedd dysgu a sgiliau y gellid eu harchwilio pe bai digon o gyllid ar gael. Mae'r rhain yn cynnwys modiwlau unigol neu annibynnol a mathau eraill o gyrsiau byr a allai ddarparu hwb sgiliau cyflym i ddiwallu anghenion economaidd a diwydiannol. Dylid sicrhau bod cyllid ar gael i ddarparwyr a dysgwyr i alluogi ehangu'r mathau hyn o ddarpariaeth.

Cynyddu mynediad at llwybrau hyblyg i yrfaedd gwasanaeth cyhoeddus

Mae Cymru'n wynebu heriau sylweddol o ran recriwtio a chadw gweithwyr mewn rhai o'n gwasanaethau cyhoeddus allweddol, fel addysgu, nyrsio, gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol.

Mae ein profiad o gyflwyno'r mathau hyn o raglenni yn awgrymu bod hyblygrwydd yn hanfodol. Pan gyfunir digon o gyllid â pholisi ystwyth a hyblyg, mae mwy o bobl o ystod ehangach o gefndiroedd yn gallu ystyried gyrfa yn y sectorau hyn, heb orfod gadael eu cymunedau eu hunain.

Ar hyn o bryd, llwybrau traddodiadol yw'r flaenoriaeth o hyd. Hoffem weld ymrwymiad i ehangu llwybrau hyblyg i'r gyrfaedd hyn.

Cydnabod gwerth cymdeithasol ac economaidd dysgu gydol oes

Pan fydd pobl yn dysgu, mae eu hyder yn tyfu, mae eu lles yn gwella, ac maent yn ennill sgiliau a gwybodaeth sydd eu hangen ar yr economi. Yn fwy cyffredinol, mae cymunedau'n dod yn fwy cydlynol, llewyrchus ac iach. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru weithio gyda'r sector dysgu gydol oes i ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd, gyda digon o gyllid i ddarparwyr ac i ddysgwyr, sy'n annog ac yn galluogi dysgu parhaus drwy gydol oes.

Stori Mark

I Mark o Benarth, rhoddodd astudio gyda'r Brifysgol Agored yng Nghymru ail gyfle iddo, ac mae wedi newid cyfeiriad ei fywyd yn llwyr. O weithio fel cynorthwyydd gofal i ddod yn nyrs gymwysedig, a nawr yn astudio ar gyfer gradd meistr, mae taith Mark yn dangos pa mor bwerus y gall dysgu hyblyg fod.

"Wnes i ddim gwneud yn dda yn yr ysgol," meddai Mark. "Wnes i ddim cael y graddau ar gyfer prifysgol draddodiadol. Ond fe helpodd y Brifysgol Agored fi i sylweddoli nad yw eich gorffennol yn diffinio eich dyfodol."

Clywodd Mark am y Brifysgol Agored gyntaf tra'n gweithio mewn cartref preswyl. Taniodd sgwrs gyda gyrrwr ambiwlans ei ddiddordeb, ac yn fuan gwnaeth gais am rôl gweithiwr cymorth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. O'r fan honno, parhaodd i siarad â'i Nyrs Datblygu Ymarfer am gyfleoedd astudio ac yn y pen draw sicrhodd le ar radd nyrsio oedolion y Brifysgol Agored.

Astudiodd wrth weithio, diolch i lwybr hyblyg a gefnogwyd gan y bwrdd iechyd ac Addysg a Gwellu Iechyd Cymru. "Cymerodd y cwrs bedair blynedd, ond roedd yn teimlo fel pedair eiliad," meddai Mark. "Roeddwn i wrth fy modd â phob munud ohono."

Roedd dull hyblyg y Brifysgol Agored yn golygu y gallai Mark ddysgu ar ei gyflymder ei hun, yn ei amgylchedd ei hun, tra'n dal i ennill cyflog. "Does dim rhaid i chi roi'r gorau i waith i astudio," eglura. "Rydych chi'n cael eich cefnogi'n ariannol, ac yn gyfnewid, rydych chi'n rhoi dwy flynedd o wasanaeth fel nyrs yng Nghymru. Mae'n gweithio i chi ac i'r GIG."

Ers graddio, mae Mark wedi sicrhau rôl Band 6 fel nyrs arbenigol, gan ennill profiad gwerthfawr o reoli prosiectau mewn treialon clinigol. Mae bellach yn adeiladu ar hynny trwy astudio ar gyfer gradd meistr gyda'r Brifysgol Agored i baratoi ar gyfer cam nesaf ei yrfa.

Mae hefyd wedi ymgymryd â rôl arweinyddiaeth fel is-gadeirydd Coleg Brenhinol y Nyrsys yng Nghymru, gan gynrychioli gweithwyr proffesiynol nyrsio ledled y wlad.

"Helpodd y Brifysgol Agored fi i ddarganfod pwy ydw i mewn gwirionedd," meddai. "Rwyf wedi darganfod fy mod i wrth fy modd yn dysgu, a nawr rwy'n adeiladu dyfodol rwy'n falch ohono."

Mae stori Mark yn dangos sut y gall llwybrau amgen i broffesiynau fel nyrsio agor drysau i unigolion a helpu i gryfhau'r gweithlu yng Nghymru.

"Os yw rhywun yn ystyried astudio gyda'r Brifysgol Agored, byddwn i'n dweud ewch amdani," meddai. "Rhoddodd ail gyfle i mi—a gallai wneud yr un peth i gynifer o rai eraill."



Mark Crothers, BSc (Anrh) Nyrsio



The Open University
Y Brifysgol Agored

Wales Cymru

Cysylltu

I drefnu cyfarfod i drafod ein blaenoriaethau, cysylltwch â

Cerith Rhys Jones
Uwch-reolwr, Polisi a Materion Cyhoeddus

cerith.rhys-jones@open.ac.uk | 029 20 262 765

@OUCymru



/openuniversitywales



@theopenuniversity



/the-open-university-in-wales

